


# Power in the community



Photomontage of the proposed power station from Pennar Point



## Contents

- 01** Power station update
- 02** Investigations into CHP technology heat up
- 02** With power comes responsibility
- 03** Meet the Team
- 04** npower – investing in the Community
- 04** Pembroke Power Station Local Liaison Committee

## New Power Station for Pembroke given go-ahead

On 5 February 2009, the Energy Minister approved our proposals for a new, highly efficient, gas-fired power station near Pembroke.

The new Combined Cycle Gas Turbine (CCGT) power station will have a capacity of around 2,000MW and will generate enough power to supply around four million homes. It will be constructed within the site which housed the previous oil-fired power station and will take approximately three years to construct.

Work will commence on site shortly, beginning a process that will see around £1 billion invested in a project which will create up to one hundred high quality, long term operational jobs and employ over 1,600 people at the peak of construction.

Simon Jameson, RWE npower Project Director, said: "This is an important decision for Pembroke and Wales, bringing huge investment and opportunities for employment to the region.

"Throughout the four year planning process, we have appreciated the support we've received from the local community and we look forward to continuing to work with you to deliver a project of which we can all be proud."

The Leader of Pembrokeshire County Council, Councillor John Davies said,

## Newsflash

In late Spring, we are planning to hold a series of public exhibitions in the local area. These will provide more information about the construction phase of the project and will give you an opportunity to meet the RWE npower team. Dates will be announced soon.

"This is the best news we could have hoped for. This new power station will be crucial to the economy, not just of Pembrokeshire but the whole of South Wales and the UK.

"The County Council has been pleased to work with RWE npower for a very long time on this project and this is the announcement we have been waiting for. At a time when other major construction projects are beginning to wind down, the jobs in building the power station will give a huge and immediate boost to the economy of this county."

# Investigations into CHP technology heat up



One of npower Cogen's dedicated CHP plants

Protecting the environment is very important and RWE npower is committed to minimising the environmental impact of everything it does – especially when developing a new power station.

As a result, the proposed Pembroke Power Station has been designed with the potential

to enable heat to be extracted from the electricity generation process and utilised by suitable local customers. This process is known as CHP, or combined heat and power.

Throughout the development of the Pembroke Power Station project, we have considered a number of opportunities to supply waste heat created by the generation process to nearby heat demands and we will continue to do this. A facility to supply surplus heat could be installed on the power station at a later date and so just because the plant will not initially employ this technology does not mean that it could not do so in the future.

Pembroke Power Station has been designed to provide a highly efficient source of electricity. The surplus heat produced will be at a relatively low temperature (approx 25°C) compared with the 200°C typically required by industrial processes. Nevertheless, it would be possible to extract higher temperature heat. However this would reduce the amount of electricity produced by the power station and this deficit would then need to be supplied by other,

npower Cogen has developed a portfolio of 16 CHP plants in the UK and Eire with a current operational capacity of more than 2,000MW of heat and power.

potentially more CO<sub>2</sub> intensive power stations elsewhere on the national grid.

We are a leading developer and operator of CHP plants through our dedicated CHP business, npower Cogen. Since the early 1990s, npower Cogen has developed a portfolio of 16 CHP plants in the UK and Eire with a current operational capacity of more than 2,000MW of heat and power. As a result, we have a strong understanding of the potential benefits of, and barriers to, further uptake of this technology. We are continually exploring commercially viable opportunities for further CHP projects and have recently announced plans to build a 45MW biomass CHP plant at Markinch in Scotland.

# With Power Comes Responsibility

Last year, we launched [www.rwenpowercr.com](http://www.rwenpowercr.com) – the new Corporate Responsibility (CR) website for RWE npower. We publish a CR report every year, and have done for the last five years. This website replaces our traditional printed version, making the report more accessible and comprehensive.

On the website, we explain how we approach the different elements of corporate responsibility, from our environmental challenges to how we protect vulnerable energy customers. We also report on what we achieved in the previous year, and the targets we have set ourselves for the future.

We recognise the impact that our business has on the world we live in through the burning of fossil fuels, and aim to ensure

that we undertake all aspects of our business in a responsible manner.

Our commitment to responsible business practice means that we:

- consider environmental, ethical and social impacts when making business decisions
- participate in activities that have social and environmental benefits
- work with our stakeholders to ensure we understand their needs and concerns, and consult with them when we have difficult decisions to make
- make sure our employees understand the issues that are critical to our business

In its simplest form, our responsibility is to deliver affordable and reliable energy to our customers with the least possible impact on the environment and if we are to continue

to be a successful business, we need to be a sustainable one.



# Interview with Simon Jameson



## What is your role at Pembroke?

I am RWE npower's Project Director for new build CCGT power stations. At Pembroke, I have overall responsibility for developing the new power station and making sure that it is delivered on time. In addition, an important part of my role will be to ensure that RWE npower works closely with the local community to understand and minimise any impacts during the construction phase. I also work on the Staythorpe Power Station project in Nottinghamshire and will be able to transfer the best practice we have developed there to Pembroke.

## What was your previous job?

Before joining the Pembroke Power Station project team in 2008, I was the Station Manager at Little Barford Power Station in Cambridgeshire. This entailed overseeing all aspects of the power station's day-to-day running as well as managing the team of around 80 employees. Little Barford is also a CCGT power station so I'll be able to transfer my experience and expertise to the Pembroke project.

## When will construction start and how long will it take?

Work will begin on site in Spring 2009 and it will take approximately three years to construct the power station. We expect

the power station to be fully operational by late 2012.


## Who will be building the power station?

We have placed a contract with Alstom, a world leader in energy infrastructure, to build the power station on our behalf. Alstom is currently constructing our new CCGT power station at Staythorpe in Nottinghamshire and has considerable experience in delivering power plants around the world.

## How will you keep the local community up to date with the project's progress?

Over the next couple of months we'll be meeting local town and community councils to update them on our plans for the new power station and to discuss the project. This will be followed in late Spring by a series of public exhibitions in Pembroke, Pembroke Dock and Milford Haven to give people an opportunity to meet the project team and find out more about the power station.

Throughout the construction of the power station, we'll provide regular updates via our quarterly newsletter. In addition, anyone wishing to contact us can use the dedicated email address, postal address or telephone information line, details of which are on the back page of this newsletter.



## The history of Pembroke Power Station

- The former Pembroke Power Station was constructed between 1965 and 1968
- It had four generating units with a total capacity of 2,000MW making it one of the largest oil fired power stations in Europe
- During its early operational life, two of the four main turbo-generator units alone were capable of meeting the power requirements of South Wales
- The area occupied by the main building was reclaimed from Pennar Gut using material taken from the west of the site
- Pembroke Power Station stopped generating electricity in 1997
- It was demolished between 2000 and 2003
- RWE npower submitted a planning application for construction of a new power station in 2005
- Following a detailed review of our application, permission has been granted allowing construction to start in 2009.



The former Pembroke Power Station

# npower – Investing in skills

Once operational, Pembroke Power Station will create around one hundred long-term high quality jobs, the majority of which will be technical and engineering roles.



An npower apprentice

In addition, we have already identified two potential apprentices for the project, who have recently joined our four year

apprenticeship programme. They are both from the local area, in fact the father of one of the apprentices worked at the old Pembroke Power Station.

We met one of the apprentices at an information evening for school leavers held last year at the Technium in Pembroke Dock. Over four hundred students from schools in Pembrokeshire attended the event, which gave them the opportunity to meet local employers from the energy sector. Representatives from almost twenty companies, ranging from local engineering firms to multinational employers, including RWE npower, talked to the students about the skills and qualifications they need to succeed in the energy industry.

## Pembroke Power Station Local Liaison Committee

A vital part of the construction and operation of a new power station is ensuring that we maintain good relationships with our neighbours and that there is an easy and regular flow of information.

To support this, we have set up a Local Liaison Committee (LLC), made up of members of the RWE npower project team and representatives of the local Community, Town and County Councils.

The LLC will meet every three months and is an important forum for two key reasons: it allows us to update your local representatives on the project's progress and, importantly for us, we receive feedback via them from the community. This means

we can understand and discuss any local concerns and work with the LLC members to support the local community.

An important element of the new power station is the South Haven Gas Pipeline which will be used to supply the natural gas fuel to the plant. The construction of the gas pipeline will also fall within the remit of the LLC and council representatives of the area surrounding the site of the pipeline construction at Blackbridge have been invited to join the committee.

The first LLC meeting is expected to take place during April and we will provide reports of the meetings in our quarterly newsletters.

### Community Fund



Once construction of the new power station begins, we will establish a Community Fund through which we will continue to sponsor and support local groups and events which bring a benefit to the community at large. If you are aware of a project that could benefit from our support please let us know.

### Contact us...

Throughout the process of developing a new power station at our Pembroke site, RWE npower is committed to keeping local people informed and taking their opinions into consideration.

If you have any questions, concerns or comments, or if there is anything that you would like us to be aware of, then please contact us.


Email us at [pembroke@rwenpower.com](mailto:pembroke@rwenpower.com)

Write to us at  
 Freepost RRRG-AZTG-JLJX,  
 Camargue (RWE npower),  
 Eagle Tower, Montpellier Drive,  
 Cheltenham, GL50 1TA

Or leave a message  
 on the Pembroke information line  
 on 0845 136 0102 and we will  
 respond as quickly as possible.

[www.rwenpower.com/pembroke](http://www.rwenpower.com/pembroke)

# Power yn y gymuned



## Cynnwys

- 01** Y diweddaraf am yr Orsaf Bŵer
- 02** Ymchwiliadau i dechnoleg Gwres a Phŵer Cyfun yn cynhesu
- 02** Gyda Phŵer Daw Cyfrifoldeb
- 03** Cwrdd â'r Tîm
- 04** npower - buddsoddi mewn sgiliau
- 04** Pwyllgor Cyswllt Lleol Gorsaf Bŵer Penfro

Montage ffotograffig o'r orsaf bŵer arfaethedig o Bwynt Pennar

## Sêl Bendith i Orsaf Bŵer Newydd ym Mhenfro

Ar y 5<sup>ed</sup> o Chwefror, fe gymeradwywyd ein cynigion i sefydlu gorsaf bŵer nwy tra effeithlon newydd ger Penfro gan y Gweinidog dros Ynni.

Bydd gan y Tyrbin Nwy Cylch Cyfun (TNCC) newydd y gallu i gynhyrchu oddeutu 2,000MW, digon o bŵer i gyflenwi tua phedair miliwn o gartrefi. Caiff ei hadeiladu ar safle'r cyn-orsaf bŵer olew, gan gymryd rhyw dair blynedd i'w hadeiladu.

Bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn yn fuan ar y safle; proses a fydd yn golygu buddsoddiad o tua £1 biliwn mewn prosiect a fydd yn creu hyd at gant o swyddi gweithredol tymor hir o ansawdd uchel, ac yn cyflogi dros 1,600 o bobl pan fydd y cyfnod adeiladu yn ei anterth.

Dyweddodd Simon Jameson, Cyfarwyddwr Prosiect RWE npower: "Dyma benderfyniad pwysig iawn i Benfro a Chymru, a fydd yn dod â buddsoddiad a chyfleoedd gwaith enfawr i'r rhanbarth.

"Trwy gydol y broses cynllunio pedair blynedd, gwerthfawrogwyd y gefnogaeth a dderbyniom gan y gymuned leol ac edrychwn ymlaen at y cyfle i barhau i weithio gyda chi, a darparu prosiect y gall bawb fod yn falch ohono"

Meddai'r Cyngorydd John Davies,

## Newyddion!

Ar ddiwedd y Gwanwyn, ein bwriad yw cynnal cyfres o arddangosfeydd cyhoeddus yn yr ardal leol. Bydd y rhain yn darparu mwy o wybodaeth ynglŷn â chyfnod adeiladu'r prosiect a chynnig cyfle i chi gwrdd â thîm RWE npower. Cyhoeddir y dyddiadau yn fuan.

Arweinydd Cyngor Sir Penfro, "Allen ni ddim fod wedi gobeithio am well newyddion. Bydd yr orsaf bŵer newydd hon yn hanfodol i'r economi, nid yn unig i Sir Benfro ond i Dde Cymru gyfan a'r DU.

"Pleser o'r mwyaf oedd hi i'r Cyngor weithio gyda RWE npower am gyfnod mor hir ar y prosiect hwn a dyma'r cyhoeddiad y buom yn disgwyl amdano. Ar adeg pan fo prosiectau adeiladu mawr yn dirwyn i ben, bydd y swyddi a ddaw yn sgil adeiladu'r orsaf bŵer yn hwb sylweddol ac uniongyrchol i economi'r sir."

# Ymchwiliadau i dechnoleg Gwres a Phŵer Cyfun yn cynhesu



Un o weithfeydd Gwres a Phŵer npower

**Mae amddiffyn yr amgylchedd yn hollbwysig ac mae RWE npower yn ymrwymedig i leihau'r effaith amgylcheddol ymhob agwedd o'i waith - yn enwedig wrth ddatblygu gorsaf ber newydd.**

O ganlyniad, cynlluniwyd yr Orsaf Ber arfaethedig ym Mhenfro gyda'r potensial i echdynnu gwres adeg y broses cynhyrchu trydan i'w ddefnyddio gan gwsmeriaid

lleol addas. Gelwir hyn yn CHP, neu wres a pher cyfunedig.

Drwy gydol datblygiad prosiect Gorsaf Ber Penfro, rydym wedi ystyried nifer o gyfleoedd i gyflenwi'r gwres a wastreffir adeg y broses cynhyrchu, i ddiwallu'r galw lleol am wres, a byddwn yn parhau i wneud hyn. Byddai modd gosod y cyfleuster i gyflenwi gwres sy'n weddill yn ddiweddarach ar yr orsaf ber, felly, nid yw'r ffaith na fydd y gwaith yn gweithredu'r fath dechnoleg i gychwyn yn golygu na fydd yn medru gwneud hynny yn y dyfodol.

Cynlluniwyd Gorsaf Bŵer Penfro i ddarparu ffnhonnell dra effeithlon o drydan. Mi fydd gweddill y gwres a gynhyrchir o dymheredd gymharol isel (tua 25°C) o gymharu â'r 200°C nodweddiadol sydd angen gan brosesau diwydiannol. Er hynny, byddai modd echdynnu gwres uwch. Fodd bynnag byddai hyn yn gostwng maint y trydan y byddai'r orsaf bŵer yn ei gynhyrchu, felly byddai rhaid i orsafoedd pŵer sydd o bosib yn cynhyrchu mwy o CO<sub>2</sub> gyflenwi'r fath ddiffyg mewn man arall ar y grid cenedlaethol.

**Ers dechrau'r 90au, mae npower Cogen wedi datblygu portffolio o 16 o weithfeydd CHP yn y DU ac Iwerddon gyda'r gallu ar hyn o bryd i gynhyrchu mwy na 2,000MW o wres a phŵer.**

Trwy ein busnes CHP dynodedig, npower Cogen, rydym yn un o'r datblygwyr a gweithredwyr gweithfeydd CHP mwyaf blaenllaw. Ers dechrau'r 90au, mae npower Cogen wedi datblygu portffolio o 16 o weithfeydd CHP yn y DU ac Iwerddon gyda'r gallu ar hyn o bryd i gynhyrchu mwy na 2,000MW o wres a pher. O ganlyniad, mae gennym ddealltwriaeth gadarn o'r buddion posibl, a'r rhwystrau i ymgymryd ymhellach â'r dechnoleg hon. Rydym wrthi'n rheolaidd yn archwilio cyfleoedd sy'n fasnachol ddichonadwy ar gyfer prosiectau CHP, ac yn ddiweddar fe wnaethom gyhoeddi cynlluniau i adeiladu gwaith CHP biomass 45MW ym Markinch, Yr Alban.

## Gyda Phŵer Daw Cyfrifoldeb

Llynedd, fe wnaethom lansio [www.rwenpowercr.com](http://www.rwenpowercr.com) - gwefan Cyfrifoldeb Corfforaethol (CC) newydd RWE npower. Rydym yn cyhoeddi adroddiad CC yn flynyddol, ers y pum mlynedd diwethaf. Mae'r wefan hon yn cymryd lle ein fersiwn argraffedig traddodiadol, felly'n gwneud yr adroddiad yn fwy hygyrch a chynhwysfawr.

Ar y wefan, rydym yn esbonio'r ffordd yr ydym yn ymdrin â gwahanol elfennau o gyfrifoldeb corfforaethol, o'n heriau amgylcheddol i'r ffordd yr ydym yn amddiffyn cwsmeriaid bregus. Rydym hefyd yn adrodd ynghylch yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r targedau yr ydym wedi gosod i ni'n hunain ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn cydnabod yr effaith sydd gan ein busnes ar y byd yr ydym yn byw ynddo drwy

losgi tanwydd ffosil, a'n nod yw sicrhau ein bod yn ymgymryd â phob agwedd o'n busnes mewn ffordd gyfrifol.

Mae ein hymrwymiad tuag at arferion busnes cyfrifol yn golygu ein bod yn:

- ystyried effeithiau amgylcheddol, moesegol a chymdeithasol wrth wneud penderfyniadau busnes
- cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd â manteision cymdeithasol ac amgylcheddol
- gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion a'u pryderon, ac ymgynghori â hwy pan fod gennym benderfyniadau anodd
- sicrhau bod ein cyflogeion yn deall y materion sy'n allweddol i'n busnes

Yn syml, mae gennym gyfrifoldeb i ddarparu ynni fforddiadwy a dibynadwy i'n cwsmeriaid

mewn ffordd sy'n creu'r effaith lleiaf posibl ar yr amgylchedd, ac os ydym am barhau i fod yn fusnes llwyddiannus, mae angen i ni fod yn un cynaliadwy.



# Cyfweliad gyda Simon Jameson



## Beth yw eich rôl ym Mhenfro?

Fi yw Cyfarwyddwr Prosiect gorsafoedd pŵer Tyrbinau Nwy Cylch Cyfun newydd npower. Ym Mhenfro, mae gen i gyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu'r orsaf bŵer newydd a gwneud yn siŵr ei bod yn cael ei chwblhau ar amser. Yn ogystal â hyn, mae hi'n rhan bwysig o'm rôl i sicrhau bod RWE npower yn gweithio'n agos gyda'r gymunedol leol i sicrhau ein bod yn deall ac yn lleihau unrhyw effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu. Yr wyf hefyd yn gweithio ar brosiect Gorsaf Bŵer Staythorpe yn Swydd Nottingham a byddaf yn medru cymhwyso'r arfer gorau a ddatblygwyd yno, yma ym Mhenfro.

## Beth oedd eich swydd flaenorol?

Cyn ymuno â thîm prosiect Gorsaf Bŵer Penfro yn gynharach eleni, roeddwn yn Rheolwr Gorsaf yng Ngorsaf Bŵer Little Barford, Swydd Caergrawnt. Roedd hyn yn golygu goruchwylio pob agwedd o gynnal yr orsaf o ddydd i ddydd yn ogystal â rheoli tîm o tua 80 o gyflogeion. Mae Little Barford hefyd yn orsaf bŵer Tyrbinau Nwy Cylch Cyfun, felly byddaf yn medru trosglwyddo fy mhrofiad a'm harbenigedd i brosiect Penfro.

## Pryd fydd y cyfnod adeiladu'n cychwyn a pha mor hir fydd e'n ei gymryd?

Bydd y gwaith ar y safle yn cychwyn yng Ngwanwyn 2009 ac yn cymryd oddeutu tair blynedd i adeiladu'r orsaf bŵer. Yn

ôl pob disgwyl fydd yr orsaf bŵer yn hollol weithredol erbyn diwedd 2012.


## Pwy fydd yn adeiladu'r orsaf bŵer?

Rydym wedi trefnu contract gyda Alstom, un o brif gwmnïau'r byd o ran seilwaith ynni, i adeiladu'r orsaf bŵer ar ein rhan. Alstom sy'n adeiladu ein gorsaf bŵer TNCC newydd yn Staythorpe, Swydd Nottingham ar hyn o bryd, ac mae gan y cwmni brofiad helaeth o adeiladu gweithfeydd pŵer o gwmpas y byd.

## Sut fyddwn ni'n hysbysu'r gymuned leol ynglŵn â'r newyddion diweddaraf am y prosiect?

Yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf byddwn yn cwrdd â chynghorau tref a chymuned er mwyn eu hysbysu ynglŵn â'n cynlluniau ar gyfer yr orsaf bŵer newydd ac er mwyn trafod y prosiect. I ddilyn hyn, ar ddiwedd y Gwanwyn, byddwn yn cynnal cyfres o arddangosfeydd cyhoeddus ym Mhenfro, Doc Penfro ac Aberdaugleddau er mwyn rhoi cyfle i bobl gwrdd â thîm y prosiect a darganfod mwy am yr orsaf bŵer newydd.

Trwy gydol cyfnod adeiladu'r orsaf bŵer, byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd drwy ein cylchlythyr chwarterol. Yn ogystal â hyn, gall unrhyw un sy'n dymuno cysylltu â ni wneud hynny drwy'r cyfeiriad e-bost dynodedig, cyfeiriad post neu'r llinell wybodaeth; ceir y manylion ar gefn y cylchlythyr hwn.



## Hanes Gorsaf Bŵer Penfro

- Adeiladwyd Cyn Orsaf Bŵer Penfro rhwng 1965 a 1968
- Roedd ganddi bedair uned cynhyrchu gyda'r gallu i gynhyrchu cyfanswm o 2,000MW, felly'n ei gwneud hi'n un o'r gorsafoedd pŵer olew mwyaf yn Ewrop
- Ar ddechrau ei chyfnod cynhyrchu, roedd dau o'r prif unedau generadur tyrbo yn medru bodloni anghenion pŵer De Cymru ar eu pennau'u hunain
- Adenillwyd yr ardal lle'r oedd y prif adeilad o Pennar Gut gan ddefnyddio defnydd a gymerwyd o orllewin y safle
- Fe wnaeth Gorsaf Bŵer Penfro rhoi'r gorau i gynhyrchu trydan ym 1997
- Cafodd ei dymchwel rhwng 2000 a 2003
- Cyflwynwyd cais cynllunio gan RWE npower i adeiladu gorsaf bŵer newydd yn 2005
- Ar ôl adolygu'n cais yn fanwl, rhoddwyd caniatâd, felly'n caniatáu'r cyfnod adeiladu i gychwyn yn 2009



Cyn Orsaf Bŵer Penfro

# npower – buddsoddi mewn sgiliau

Ar ôl dechrau gweithredu, bydd Gorsaf Bŵer Penfro yn creu tua chant o swyddi o ansawdd, a hynny yn y tymor hir; bydd y mwyafrif ohonynt yn swyddi technegol a pheirianegol.



Prentis gyda npower

Yn ogystal â hyn, rydym eisoes wedi nodi dau brentis ar gyfer y prosiect, ac maent wedi ymuno â'n rhaglen brentisiaeth

4-blynedd. Daw'r ddau o'r ardal leol a bu tad un ohonynt yn gweithio yn hen Orsaf Bŵer Penfro.

Llynedd, fe wnaethom gwrdd ag un o'r prentisiaid adeg noson wybodaeth a gynhaliwyd yn Technium, Doc Penfro ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol. Fe wnaeth dros bedwar cant o fyfyrwyr o ysgolion yn Sir Benfro fynychu'r noson a rhoddodd gyfle iddynt gwrdd â chyflogwyr lleol o'r sector ynni. Fe wnaeth cynrychiolwyr o bron i ugain cwmni, yn amrywio o gwmnïau peirianeg lleol i gyflogwyr rhyngwladol gan gynnwys RWE npower, siarad â'r myfyrwyr ynglŵn â'r sgiliau a'r cymwysterau sydd angen arnynt i lwyddo yn y diwydiant ynni.

## Pwyllgor Cyswilt Lleol Gorsaf Bŵer Penfro

Rhan hanfodol o gyfnod adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer newydd yw sicrhau ein bod yn cynnal perthynas dda gyda'n cymdogion a bod y wybodaeth yn llifo'n esmwyth a rheolaidd.

Er mwyn sicrhau hyn, rydym wedi sefydlu Pwyllgor Cyswilt Lleol (PCL), sy'n cynnwys aelodau o dîm prosiect RWE npower a chynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned, Tref a Sirol.

Bydd y PCL yn cyfarfod bob tri mis. Mae'r PCL yn fforwm pwysig am ddau reswm: ei fod yn ein caniatáu i hysbysu'ch cynrychiolwyr lleol ynglŵn â chynnydd y prosiect, ac, yn bwysig i ni, yn ein galluogi i dderbyn adborth ganddynt o weddill y

gymuned. Golyga hyn y byddwn yn medru deall a thrafod unrhyw bryderon lleol a gweithio gydag aelodau'r PCL er mwyn cefnogi'r gymuned leol.

Elfen bwysig o'r orsaf bŵer newydd yw Piblinell Nwy Hafan y De a ddefnyddir i gyflenwi tanwydd nwy naturiol i'r safle. Bydd gwaith adeiladu'r piblinell nwy hefyd yn syrthio o fewn cylch gwaith y PCL ac estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr yr ardal sy'n amgylchynu safle'r piblinell yn Blackbridge, ymuno â'r pwyllgor.

Disgwylir y bydd cyfarfod cyntaf y PCL yn cael ei gynnal yn ystod mis Ebrill a byddwn yn paratoi adroddiadau o'r cyfarfodydd yn ein cylchlythyron chwarterol.

### Cronfa Gymunedol



Unwaith y bydd cyfnod adeiladu'r orsaf bŵer newydd ar waith, byddwn yn sefydlu Cronfa Gymunedol, gan barhau i noddi a chefnogi grwpiau a digwyddiadau lleol sydd o fudd i'r gymuned gyfan. Os ydych yn ymwybodol o brosiect a fyddai'n buddio o'n cefnogaeth, rhowch wybod i ni.

### Cysylltu â ni...

Drwy gydol y broses o ddatblygu gorsaf bŵer newydd ar ein safle ger Penfro, mae RWE npower yn ymrwymedig i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl leol a rhoi ystyriaeth i'w barn a'u sylwadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, pryderon neu sylwadau, neu os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw beth arall mae croeso i chi gysylltu â ni.

Anfonwch e-bost at [pembroke@rwenpower.com](mailto:pembroke@rwenpower.com)

Ysgrifennwch atom yn  
Freepost RRGK-AZTG-JLJX,  
Camargue (RWE npower),  
Eagle Tower, Montpellier Drive,  
Cheltenham, GL50 1TA

Neu gadewch neges  
ar linell wybodaeth Penfro ar  
0845 136 0102 ac fe wnawn ni  
ymateb cyn gynted â phosib.

[www.rwenpower.com/pembroke](http://www.rwenpower.com/pembroke)